**EITEM AR YR AGENDA: 7**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**21ain Rhagfyr 2009**

**Breinlen Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau**

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc i'r Awdurdod**

## DIBEN

1 Rhoi gwybod i'r Aelodau fod yr Awdurdod, yn ddiweddar, wedi derbyn Breinlen Cymru ar gyfer Cefnogi a Datblygu Aelodau.

## CEFNDIR

2 Bydd yr Aelodau'n cofio y penderfynwyd gwneud cais am y Freinlen a grëwyd i roi strwythur ac ysgogiad i'r corff cynyddol o wasanaethau i gefnogi aelodau yng Nghymru. Nod y Freinlen yw sicrhau bod yr awdurdodau'n cael eu gwasanaethu gan aelodau effeithiol sy'n gweithio i sicrhau/gwella llywodraethiant corfforaethol, democratiaeth leol a gwasanaethau lleol.

## GWYBODAETH

### Y Manteision i'r Awdurdod

3 Trwy weithio tuag ar y Freinlen, mae'r Aelodau wedi gallu ymgysylltu ragor a'i gilydd, ynghyd â'r swyddogion, a hynny o ran hyfforddiant, datblygu a gwybodaeth. Mae'r Aelodau wedi dangos eu hymrwymiad i waith yr Awdurdod trwy gyrraedd yn gynt i gyfarfodydd yr Awdurdod er mwyn cael hyfforddiant ynglŷn â gwahanol feysydd o waith y Gwasanaeth, cyn i'r cyfarfodydd swyddogol ddechrau.

4 Mae'r Aelodau wedi cael eu gwahodd i fynychu gwahanol ddigwyddiadau a drefnir gan y Gwasanaeth, yn cynnwys:

- tro o gwmpas y Ganolfan Gyfathrebu ar y Cyd newydd;
- digwyddiad yn arddangos gwrthdrawiad ar y ffordd;
- seminar ar gyfer diffoddwyr tân yn dangos offer newydd ar gyfer achub o gerbydau;
- cyfarfod â diffoddwyr tân sy'n gweithio ar y gwahanol batrymau shifftiau o fewn y Gwasanaeth.

5 Cafodd yr Aelodau eu hannog hefyd i ymweld â'u gorsafoedd tân lleol, ac yn enwedig pan fo digwyddiadau'r Ffenics yn cael eu cynnal.

## Adborth gan y Tîm Adolygu

6 Canmolwyd yr Awdurdod gan y tîm adolygu am y gwaith caled a wnaed wrth baratoi ar gyfer y dyfarniad gan yr aelodau a'r swyddogion dros gryn amser, a chydnabuwyd bod yr Awdurdod, yn dechnegol, wedi cwrdd â gofynion y Freinlen. Teimlai'r tîm adolygu hefyd y dylid annog yr Awdurdod yn gryf i hyrwyddo egwyddorion y Freinlen ymysg yr holl aelodau a'r uwch swyddogion er mwyn sicrhau ei bod yn ymwreiddio yn y sefydliad, ac yn gymorth i greu sylfaen gadarn ar gyfer cynnydd pellach o ran cefnogi a datblygu'r aelodau.

7 Bu'r tîm adolygu cymheiriaid, a hunanasesiad yr Awdurdod ei hun, yn adnabod nifer o feysydd ar gyfer gwelliant pellach. Mae copi o'r adroddiad i'w gael yn llawn yn atodiad A.

8 Yng nghynhadledd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (*WLGA*) ar Ddatblygu'r Aelodau ar Dachwedd 19$^{eg}$, cyflwynwyd y wobr i Gadeirydd yr Awdurdod.

## ARGYMHELLIAD

9 Gofynnir i'r Aelodau nodi'r wybodaeth a ddarperir, ac i ganmol yr aelodau a'r swyddogion ar y llwyddiant hwn.

# Breinlen Cynorthwyo a Datblygu Aelodau
# Awdurdod Tân ac Achub y Gogledd
### Adroddiad Asesu
### Hydref 2009

## Cefndir

Aseswyd yr awdurdod gan dîm o gymheiriaid dan arweiniad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

- Tim Buckle, Ymgynghorydd Gwella a Llywodraethu WLGA
- Y Cyng. Val Slater, Cyngor Dinas Bradford
- Y Cyng. Bob Burns, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
- Neil Evans, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Sarah Titcombe, Ymgynghorydd Datblygu Personol a Chyfundrefnol WLGA

Gan fod cais yr awdurdod yn llwyddiannus, cyflwynir statws y Freinlen yn ffurfiol yn ystod Cynhadledd Datblygu Cynghorwyr Cymru fis Tachwedd 2009.

Rhoddwyd yr adroddiad hwn i'r awdurdod yn gyfrinachol i grynhoi canfyddiadau'r tîm adolygu, nodi meysydd lle mae arferion pwysig a rhagorol y gellir eu lledaenu ymhlith awdurdodau lleol a thynnu sylw'r awdurdod at feysydd yr hoffai ystyried eu datblygu ymhellach – yn arbennig wrth baratoi cais ar gyfer y Freinlen Uwch.

## Statws y Freinlen

Bydd gan Awdurdod Tân ac Achub y Gogledd statws y Freinlen am dair blynedd. Wedi hynny, bydd disgwyl iddo naill ai (i) cyflwyno cais am ei ailasesu ar y lefel hon neu (ii) cyflwyno cais am y Freinlen Uwch (y lefel nesaf).

Anogir yr awdurdod i ddangos y dystysgrif a'r wobr lle bydd y rhai sy'n ymweld â'i adeilad yn gallu eu gweld.

Fe'i anogir i ddefnyddio'r logo ar ddogfennau a deunydd ysgrifennu fel y bo'n briodol, hefyd.

## Sylwadau'r tîm adolygu

Hoffai'r tîm ganmol yr awdurdod am waith dyfal ei aelodau a'i swyddogion wrth baratoi ar gyfer y wobr.  Cydnabu'r tîm fod yr awdurdod wedi ateb gofynion y Freinlen ond roedd o'r farn y dylid ei annog yn gryf i hyrwyddo egwyddorion y Freinlen ymhlith ei aelodau a'i swyddogion uchelradd i ofalu y byddan nhw'n eu mabwysiadu'n rhan gynhenid o'i drefn fel y bydd modd creu sylfaen cadarn ar gyfer cynnydd ym maes cynorthwyo a datblygu aelodau.

Mewn unrhyw adolygiad, bydd meysydd rhagorol a rhai mae angen eu gwella.  Mae cwestiynu adeiladol o'r fath yn rhan hanfodol o broses adolygu trwy gymheiriaid a phroses asesu'r Freinlen, ac mae'n hybu'r syniad o wella trefniadau cynorthwyo a datblygu aelodau drwy'r amser.  Roedd arferion pwysig a rhagorol mewn nifer o feysydd.  Rhaid canmol yr awdurdod am y rheiny a'u lledaenu ymhlith awdurdodau eraill.

Nododd y tîm adolygu nifer o feysydd i'w gwella. Bydd y sylwadau isod yn helpu i fodloni meini prawf y Freinlen Uwch ym maes cynorthwyo a datblygu aelodau rywbryd yn y dyfodol.

## Arferion pwysig a rhagorol

| Arfer | Sylwadau |
|---|---|
| **Dull strategol** | ▪ Mae cadeirydd yr awdurdod wedi ysgwyddo cyfrifoldeb dros hyrwyddo materion cynorthwyo a datblygu'r aelodau, hefyd. Felly, mae e mewn sefyllfa i arwain a chefnogi'r maes hwn yn gryf. |
| **Datblygu aelodau** | ▪ Roedd yr holiadur am yr hyfforddiant y byddai ei angen ar aelodau'n ffordd defnyddiol o ailasesu eu hanghenion.<br>▪ Roedd cyfraniad yr awdurdod yng Nghynhadledd Awdurdodau Tân ac Achub Cymru o gymorth. Roedd yr aelodau i gyd yn ddiolchgar amdano.<br>▪ Mae'r awdurdod yn cynnal amryw weithgareddau dysgu am wasanaethau a pholisïau tan ac achub i'w aelodau. Roedd eu safon yn dda ac roedd yr aelodau fu yno yn eu gwerthfawrogi.<br>▪ Mae aelodau'n gwerthfawrogi arfer yr awdurdod ynglŷn â threfnu achlysuron dysgu i'w cynnal cyn ei gyfarfodydd arferol.<br>▪ Mae gwaith da wedi'i gyflawni hyd yma ynglŷn â nodi'r hyn mae angen i'r aelodau ei ddysgu. |

## Arferion i'w gwella

| Arfer | Sylwadau |
|---|---|
| **Dull strategol** | ▪ Mae angen i aelodau a swyddogion yr awdurdod i gyd gydio yn strategaeth datblygu'r aelodau. I ddechrau'r broses, gallai'r strategaeth fod ymysg y materion i'w trafod yn un o'i gyfarfodydd.<br><br>▪ Gellid defnyddio'r gweithgor dros ddatblygu aelodau rhagor i gyfleu cynnwys strategaeth datblygu'r aelodau a thrafod pa fath o gymorth a datblygu mae'i angen ar yr aelodau.<br><br>▪ Mae'r tîm adolygu o'r farn ei bod yn bwysig i bob rhan o'r strategaeth honno gydblethu'n eglurach. Er enghraifft, dylai cyfweliadau ar gyfer datblygu personol, holiaduron am yr hyfforddiant y bydd ei angen, disgrifiadau o rolau a rhaglen datblygu aelodau gyd-fynd a helpu i bennu a diwallu anghenion yr aelodau o ran datblygu. |

| | |
|---|---|
| | ▪ Gallai pob aelod ddefnyddio'r disgrifiad o'i rôl a'r gofynion ar ei chyfer yn ehangach fel y byddai'n cydio'n gryfach ynddo. O wneud hynny, byddai pob aelod yn fwy hyderus wrth ddadansoddi pa fath o hyfforddiant y bydd ei angen arno. |
| **Datblygu aelodau** | ▪ Roedd y tîm adolygu o'r farn ei bod yn bwysig cyfweld cadeirydd ac is-gadeirydd yr awdurdod i ddibenion datblygu personol cyn gynted ag y bo modd.<br><br>▪ Ar ôl rhaglen cyflwyno'r aelodau newydd, gellid cynnig hyfforddiant ychwanegol yn sgîl nodi eu hanghenion yn y cyfweliadau datblygu personol.<br><br>▪ Dylai'r awdurdod ystyried casglu data megis yr anghenion sydd wedi'u nodi a faint o aelodau fu mewn achlysuron hyfforddi i helpu i fonitro a gwerthuso gweithgareddau hyfforddi a datblygu.<br><br>▪ Cydnabu'r tîm adolygu'r ffaith bod yr awdurdod wedi cynnal trafodaethau eisoes am fentora, ond gallai ychwanegu at hynny trwy holi pob aelod a hoffai fentor.<br><br>▪ Cydnabuwyd bod yr awdurdod yn cynnal nifer o sesiynau hyfforddi eisoes, ond gellid gwella'r rhaglen hyfforddi trwy feithrin ymhlith aelodau fedrau mewn meysydd megis llywodraethu a thrin a thrafod y cyfryngau. |

## Cymorth gan WLGA yn y dyfodol

Mae cymorth a chyngor WLGA ar gael ynglŷn â'r materion uchod.

## Datblygu'r Freinlen

Mae meini prawf y Freinlen Uwch a Gwobr Rhagoriaeth ar y gweill o hyd. Gwahoddir Awdurdod Tân ac Achub y Gogledd i gymryd rhan yng ngwaith datblygu'r Freinlen a gwahoddir ei aelodau a'i swyddogion i fod yn rhan o dimau adolygu yn y dyfodol. Mae WLGA yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio â'r awdurdod wrth baratoi ar gyfer y lefel nesaf.

**Tim Buckle a'r Tîm Adolygu, Hydref 2009**